



Cyfrifon banc sylfaenol heb ffi



**Gwasanaeth
Cyngtori Ariannol**

- ➔ Sut y maen nhw'n gweithio
- ➔ Pethau i'w hystyried
- ➔ Pwy sy'n eu cynnig

Mae'r **Gwasanaeth Cyngori Ariannol** yn wasanaeth annibynnol ac fe'i sefydlwyd gan y llywodraeth i helpu pobl i wneud y gorau o'u harian trwy gynnig cyngor diduedd a di-dâl. Yn ogystal â chynghori ar gyfrifon banc sylfaenol heb ffi rydym yn cynnig gwybodaeth ar ystod eang o bynciau eraill.

Ewch i'n gwefan heddiw am gyngor, awgrymiadau ac offer i'ch helpu i wneud penderfyniadau cytbwys ac i gynllunio ar gyfer dyfodol gwell.

 moneyadvice.service.org.uk/cy

Cyngor diduedd am ddim

 ar-lein

 dros y ffôn

Yma i'ch helpu

Dyma'r canllaw i chi os hoffech ddysgu rhagor am gyfrifon banc sylfaenol heb ffi.

Cynnwys

Pwyntiau allweddol ynghylch cyfrifon banc sylfaenol heb ffi	2
A oes modd i mi agor cyfrif banc sylfaenol heb ffi?	3
Sut y mae agor cyfrif banc sylfaenol heb ffi	4
Defnyddio eich cyfrif banc sylfaenol heb ffi	5
Sut y mae gwasanaethau cyfrif banc sylfaenol heb ffi yn gweithio	6
Pan gaiff eich cais i gael cyfrif banc sylfaenol heb ffi ei wrthod	8
Uwchraddio i gyfrif cyfredol gwasanaeth llawn	9
Egluro'r jargon	10
Cysylltiadau defnyddiol	11

Pwyntiau allweddol ynghylch cyfrifon banc sylfaenol heb ffi

Gallwch ddefnyddio cyfrif banc sylfaenol heb ffi i dderbyn arian a thalu biliau, ond nid yw'n caniatáu i chi ddefnyddio gorddrafft. Fodd bynnag, dim ond rhai pobl sy'n gymwys i agor cyfrif.

Mae'r cyfrifon hyn ar gyfer pobl sydd heb gyfrif banc neu bobl nad ydynt yn gymwys ar gyfer cyfrif cyfredol sylfaenol gan nad oes ganddynt gofnod credyd neu fod ganddynt sgôr credyd gwael.

Gall agor cyfrif banc sylfaenol heb ffi helpu eich cymhwyster ar gyfer cyfrif banc sylfaenol heb ffi gwasanaeth llawn a gwella eich sgôr credyd.

Ni chodir ffioedd ar gyfer taliadau a fethwyd, ond ni fyddwch yn gallu cael gorddrafft. Fel pob cyfrif banc, gallwch wneud y canlynol:

- trefnu bod eich cyflog, eich budd-daliadau, ac unrhyw incwm arall yn cael eu talu i'ch cyfrif

- talu arian a sieciau i mewn am ddim (os nad ydynt mewn arian tramor)
- codi arian dros y cownter neu o beiriant arian parod
- talu biliau rheolaidd trwy Ddebyd Uniongyrchol neu archeb sefydlog
- gwirio balansau cyfrif dros y cownter, wrth beiriant arian parod, ar-lein neu ar eich ffôn symudol
- defnyddio cerdyn debyd i dalu am bethau mewn siopau ac ar-lein.

➔ Dysgwch ragor ynghylch cyfrifon banc sylfaenol heb ffi yn:
moneyadvice.service.org.uk/cyfrif-banc



A oes modd i mi agor cyfrif banc sylfaenol heb ffi?

Mae cyfrifon banc sylfaenol heb ffi ar gael i rai pobl yn unig. Gall banc neu gymdeithas adeiladu sy'n darparu cyfrifon banc sylfaenol heb ffi roi gwybod i chi a allwch chi agor un.

Dylech chi fod yn gymwys i agor cyfrif os:

- nad oes cyfrif banc neu gyfrif cymdeithas adeiladu gennych eisoes ac os nad ydych chi'n gymwys i agor cyfrif cyfredol arferol.
- ydych chi'n cael problemau ariannol ac am agor cyfrif banc sylfaenol heb ffi gyda'ch darparwr presennol neu ddarparwr arall.

Os ydych chi dan 18 oed

Mae'n rhaid i chi fod yn 16 oed o leiaf i agor cyfrif banc sylfaenol heb ffi, er bod rhai cyfrifon yn gofyn ichi fod yn 18 oed. Os ydych chi dan 18 oed dylech hefyd gymharu cyfrifon banc sylfaenol heb ffi â chyfrifon cyfredol eraill i bobl ifanc

Cyfrifon ar y cyd

Gallwch agor cyfrif banc sylfaenol heb ffi ar y cyd os yw'r ddau ohonoch yn gymwys i agor un.

Os cawsoch eich dyfarnu yn fethdalwr

Efallai y cewch agor cyfrif banc sylfaenol heb ffi os ydych yn fethdalwr nas rhyddhawyd ac yn gymwys i agor un.

Gweler *Egluro'r jargon* ar dudalen 10.

Os oes gennych gyfrif banc sylfaenol yn barod

Os ydych chi'n gwsmer cyfrif banc sylfaenol cyfredol efallai eich bod chi wedi bod yn talu ffioedd a thaliadau i ddefnyddio'r gwasanaethau. Efallai bod eich banc neu eich cymdeithas adeiladu wedi sôn wrthyhch fod cyfrifon heb ffi ar gael.

Symudodd rhai banciau a chymdeithasau adeiladu eu cwsmeriaid cyfredol a chanddynt gyfrif banc sylfaenol cyn Ionawr 2016 i gyfrif banc sylfaenol heb ffi, neu eu hystyried ar gyfer eu cyfrif cyfredol arferol. Holwch eich darparwr os ydych chi'n ansicr. Gallwch symud i gyfrif arall heb ffi gyda darparwr gwahanol.

Sut y mae agor cyfrif banc sylfaenol heb ffi

Fel arfer, gallwch wneud cais am gyfrif banc heb ffi:

- yn bersonol
- drwy'r post
- dros y ffôn
- ar-lein.

Bydd yn rhaid i chi roi prawf swyddogol o'ch hunaniaeth (ID) cyn i chi allu agor cyfrif banc sylfaenol heb ffi. Efallai y bydd rhaid i chi hefyd gadarnhau eich cyfeiriad.

Gallai prawf swyddogol o'ch ID gynnwys:

- pasbort
- trwydded yrru.

Defnyddio llythyrau swyddogol i brofi'ch ID a'ch cyfeiriad

Os nad oes pasbort neu drwydded yrru gennych, efallai y bydd eich banc neu eich cymdeithas adeiladu yn derbyn llythyrau swyddogol o DWP, HMRC, Canolfan Byd Gwaith neu gan eich cyngor lleol yn cadarnhau eich hawl i gael budd-daliadau, gan gynnwys Credyd Cynhwysol. Dylai'r llythyrau hyn hefyd cynnwys prawf o'ch cyfeiriad.

Gall llythyr sy'n cadarnhau pwy ydych chi a'ch cyfeiriad gan eich cyflogwr, coleg neu ddarparwr hyfforddiant hefyd fod yn dderbyniol gan eich banc neu eich cymdeithas adeiladu.

Gall prawf ID a chyfeiriad arall sy'n dderbyniol gynnwys llythyr gan unigolyn mewn awdurdod, megis:

- landlord cymdeithasol
- rheolwr cartref gofal
- warden llety gwarchod, hostel neu loches
- swyddog o'r lluoedd arfog
- gweinidog yr Efengyl
- meddyg teulu.

Efallai y bydd ddogfennau eraill gennych i brofi eich ID a'ch cyfeiriad os ydych chi'n:

- fyfyrwr rhyngwladol
- gweithiwr mewnfulod
- ffoadur
- ceisiwr lloches
- carcharor
- ar brawf.

Pwynt allweddol

Ewch â phob dogfen sydd gennych i'w ddangos i'r banc neu'r gymdeithas adeiladu fel y gallant benderfynu beth fyddant fwyaf tebygol o'i dderbyn.

Defnyddio eich cyfrif banc sylfaenol heb ffi

Un o'r rhesymau pwysicaf dros ddefnyddio eich cyfrif yw ar gyfer gwneud a derbyn taliadau wrth i chi reoli eich arian o ddydd i ddydd.

Bydd eich cyfrif banc sylfaenol heb ffi yn caniatáu i chi:

- dalw arian i'ch cyfrif neu godi arian dros y cownter mewn canghennau.
- codi arian parod o gownteri Swyddfa'r Post®
- defnyddio peiriannau arian parod o fewn y rhwydwaith LINK
- sefydlu Debydau Uniongyrchol neu archebion sefydlog o'ch cyfrif
- gwneud taliadau electronig eraill, megis talu cyflymach
- defnyddio cerdyn tâl yn y siopau ac ar-lein.

Pwynt allweddol

Byddwch yn derbyn rhif cyfrif a chod didoli i nodi mai chi biau'r cyfrif.

Sicrhewch eich bod chi'n rhoi'r wybodaeth gywir i'r banc, cymdeithas adeiladu neu i unigolyn sydd arno arian i chi.

Efallai na fydd yn atebol os rhewch y manylion anghywir a bod yr arian yn mynd i'r cyfrif anghywir.

Cadw golwg ar eich arian

Gallwch ddewis rheoli eich cyfrif banc sylfaenol heb ffi dros y ffôn, mewn cangen neu ar-lein. Gall hyn eich helpu i fagu'r arfer pwysig o wirio balans eich cyfrif yn rheolaidd. Gweler *Egluro'r jargon* ar dudalen 10.

Bydd eich banc neu eich cymdeithas adeiladu yn darparu cyfriflen argraffedig neu ar-lein yn dangos yr arian a dalwyd i mewn a'r arian sydd wedi gadael eich cyfrif.

Gallwch wirio faint o arian sydd gennych a chael cyfriflen fer o beiriant arian parod yn dangos y trafodion diweddaraf.

Gallwch hefyd dderbyn rhybuddion neges testun i'ch ffôn neu lawrlwytho aps symudol i wirio eich balans unrhyw le, unrhyw bryd.

Pwynt allweddol

Os ydych chi'n cael trafferth i gofio neu i ddefnyddio 'Chip a PIN', gallwch holi eich banc neu eich cymdeithas adeiladu ynghylch defnyddio 'Chip a llofnod' neu stamp rwbwr yn lle. Gweler *Egluro'r jargon* ar dudalen 10.



Dysgwch ragor ynghylch rheoli eich cyfrif banc yn:

 moneyadvice.service.org.uk/rheoli-eich-cyfrif-banc

Sut y mae gwasanaethau cyfrif banc sylfaenol heb ffi yn gweithio

Mae cyfrifon banc sylfaenol heb ffi yn cynnig sawl gwasanaeth bancio ond efallai na chewch yr holl wasanaethau sydd gan gyfrifon banc eraill.

Debydau Uniongyrchol ac archebion sefydlog

Os byddwch yn talu eich biliau trwy Ddebyd Uniongyrchol neu archeb sefydlog ac os nad oes gennych ddigon o arian yn eich cyfrif banc sylfaenol heb ffi, ni fydd eich banc neu eich cymdeithas adeiladu yn gwneud y taliad. Byddant yn rhoi gwybod i chi os bydd hyn yn digwydd.

Er na fydd eich banc neu eich cymdeithas adeiladu yn codi tâl arnoch, chi o hyd sy'n gyfrifol am dalu'r bobl y mae arnoch arian iddynt (eich credydwy'r). Gellir codi tâl am daliadau a fethir.

Efallai y bydd eich banc neu eich cymdeithas adeiladu yn canslo eich Debyd Uniongyrchol neu eich archeb sefydlog os nad oes gennych ddigon o arian yn rheolaidd i gwrdd â thaliadau.

- ➔ Dysgwch ragor am Ddebydau Uniongyrchol ac archebion sefydlog yn: moneyadvice.service.org.uk/debydau-uniongyrchol-archebion-sefydlog

Gorddrafftiau

Ni fyddwch chi'n gallu cael gorddrafft wedi'i drefnu gyda'ch cyfrif banc sylfaenol heb ffi.

Os oes gan eich cyfrif glustogfa, byddwch yn gallu tynnu arian o beiriant arian parod hyd at yr uchafswm hwnnw (fel arfer £10) hyd yn oed os yw eich arian parod wedi dod i ben.

Gweler *Egluro'r jargon* ar dudalen 10.

Ni fydd eich banc na'ch chymdeithas adeiladu yn codi tâl arnoch am fynd i orddrafft hyd at derfyn y trefniant. Ond mae'n rhaid i chi dalu arian i'ch cyfrif fel y bo mewn credyd unwaith eto cyn gynted ag y bo modd.

Ffioedd a thaliadau

Ni fydd unrhyw ffioedd neu daliadau yn berthnasol wrth ddefnyddio eich cyfrif banc sylfaenol heb ffi pan fydd:

- eich pryniannau neu drafodion yn cael eu gwneud yn y DU
- taliadau rheolaidd yn cael eu gwrthod oherwydd nad oes digon o arian gennych yn eich cyfrif.

Bydd ffioedd a thaliadau'n berthnasol os ydych chi'n:

- codi arian o beiriannau arian parod sy'n codi ffi yn y DU neu dramor
- gwneud taliadau ar-lein mewn arian tramor, hyd yn oed os yw hyn yn y DU
- gwneud taliadau â'ch cerdyn dramor.

Pwy sy'n cynnig cyfrifon banc sylfaenol heb ffi

Gall unrhyw fanc neu gymdeithas adeiladu gynnig cyfrif banc sylfaenol heb ffi, ond rhaid i'r rhai mwyaf ar y stryd fawr gynnig un i chi os nad oes gennych chi gyfrif banc a/neu nad ydych chi'n gymwys i agor neu ddefnyddio cyfrif cyfredol safonol. Sef:

Banc neu gymdeithas adeiladu	Enw'r cyfrif
Barclays	Cyfrif Cyfredol Sylfaenol Barclays
Santander	Cyfrif Cyfredol Sylfaenol
NatWest	Cyfrif Sylfaenol
Ulster Bank (Gogledd Iwerddon)	Cyfrif Sylfaenol
Royal Bank of Scotland (Yr Alban)	Cyfrif Sylfaenol
Royal Bank of Scotland (Cymru a Lloegr)	Cyfrif Sylfaenol
HSBC	Cyfrif Banc Sylfaenol
Nationwide	FlexBasic
Co-operative Bank	Cashminder
Grŵp Bancio Lloyds (yn cynnwys Halifax a Bank of Scotland)	Cyfrif Sylfaenol
TSB	Cyfrif Arian Parod
Clydesdale Bank and Yorkshire Bank	Cyfrif Readycash
Virgin Money*	Cyfrif Cyfredol Hanfodol

*Er nad yw'n ofynnol ar hyn o bryd, mae'r cyfrif hwn yn bodloni'r un rheoliadau sy'n llywodraethu'r darparwyr mwyaf.

Trysorlys Ei Mawrhydi

Pan gaiff eich cais i gael cyfrif banc sylfaenol heb ffi ei wrthod

Ni all pawb agor cyfrif banc sylfaenol heb ffi. Bydd eich banc neu eich cymdeithas adeiladu am wirio eich bod chi'n gymwys cyn cymeradwyo eich cais.

Gallent wrthod agor cyfrif banc sylfaenol heb ffi newydd:

- os gallech gael cyfrif arall, megis cyfrif cyfredol safonol.
- os na allwch brofi eich hunaniaeth neu eich cyfeiriad.
- os ydych chi'n gwrthod gwiriad credyd (er nad oes raid i chi lwyddo mewn gwiriad o'r fath)
- os ydynt o'r farn y byddwch chi'n defnyddio'r cyfrif yn anghyfreithlon neu'n dwyllodrus
- os byddwch yn ymddwyn yn fygythiol, yn anwedus neu'n dreisgar tuag at staff.

Os caiff eich cais am gyfrif banc sylfaenol heb ffi ei wrthod, mae hawl gennych i ofyn pam.

Dylai eich banc neu eich cymdeithas adeiladu ddweud wrthych pam y gwrthodwyd eich cais, oni bai eu bod yn eich amau o dwyll neu'n gwyngalchu arian.

Os na fyddwch chi'n cytuno â'r penderfyniad ac os byddwch o'r farn fod hawl gennych i agor cyfrif banc sylfaenol heb ffi, gallwch gwyno wrth eich banc neu eich cymdeithas adeiladu.

- ➔ Dysgwch ragor ynghylch sut i ddatrys problemau ariannol yn: moneyadvice.service.org.uk/problem-ariannol-a-gwneud-cwyn

Pryd y gellir cau eich cyfrif banc sylfaenol heb ffi

Gall eich banc neu eich cymdeithas adeiladu gau eich cyfrif banc sylfaenol heb ffi os:

- ei bydd yn penderfynu eich bod nawr yn gymwys ar gyfer cyfrif cyfredol safonol
- byddwch chi'n agor cyfrif banc arall yn y DU
- byddwch chi'n methu â bodloni amodau a thelerau'r cyfrif yn rheolaidd
- nad ydych chi'n defnyddio eich cyfrif am fwy na dwy flynedd
- ydych chi wedi defnyddio'r cyfrif yn anghyfreithlon neu'n dwyllodrus neu os bydd unrhyw bryderon y gallech ddefnyddio'r cyfrif yn y modd hwn
- byddwch yn ymddwyn yn fygythiol, yn anwedus neu'n dreisgar tuag at staff.
- byddwch chi'n rhoi gwybodaeth anghywir neu gamarweiniol.

Bydd eich banc neu eich cymdeithas adeiladu'n rhoi rhybudd ysgrifenedig o ddau fis o leiaf i chi, gan egluro pam y maent yn bwriadu cau eich cyfrif.

Uwchraddio i gyfrif cyfredol gwasanaeth llawn

Fe allai eich banc neu gymdeithas adeiladu adolygu o bryd i'w gilydd a fyddai cyfrif cyfredol gwasanaeth llawn yn well i'ch anghenion chi.

Byddant yn edrych ar:

- a ydych chi dal yn gymwys am gyfrif banc sylfaenol heb ffi
- eich amgylchiadau ariannol
- sut i ddefnyddio'ch cyfrif.

Mae cyfrifon cyfredol gwasanaeth llawn yn gweithio yn yr un ffordd â chyfrifon banc sylfaenol heb ffi, ac eithrio'u bod yn cynnig mwy o nodweddion, megis llog ar eich balans, a chynnyrch megis yswiriant neu gorddrafft.

Serch hynny, fe allai fod angen i chi dalu llog a chostau i ddefnyddio'r cyfrif cyfredol gwasanaeth llawn. Er enghraifft, os yw taliadau yn cael eu gwrthod oherwydd nad oes gennych chi ddigon o arian yn eich cyfrif neu os ydych chi'n defnyddio'r cyfleusterau gorddrafft.

Rhaid i'ch banc neu gymdeithas adeiladu roi hysbysiad ysgrifenedig i chi o ddau fis o leiaf yn dilyn adolygiad, yn esbonio pam eu bod yn bwriadu eich symud chi i gyfrif cyfredol gwasanaeth llawn.

Os nad ydych chi'n siŵr am symud o gyfrif heb ffi i gyfrif codi ffi, siaradwch â rhywun am yr hyn y gallwch ei wneud cyn gynted â phosibl.

Gallwch hefyd ystyried newid i gyfrif banc sylfaenol heb ffi gyda banc neu gymdeithas adeiladu arall.

- ➔ Dysgwch fwy am ddewis y cyfrif banc cywir yn: moneyadvice.service.org.uk/dewis-y-cyfrif-banc-cywir

Os bydd pethau'n mynd o chwith

Mae camgymeriadau'n gallu digwydd, ond mae yna bethau y gallwch chi a'ch banc neu'ch cymdeithas adeiladu eu gwneud i unioni pethau.

Os oes gennych gŵyn am y gwasanaeth y byddwch yn ei dderbyn, dylech gysylltu â'r banc neu'r gymdeithas adeiladu yn gyntaf i roi cyfle iddynt ddatrys y broblem.

Dylent ddelio â'ch cwyn a'ch ateb cyn pen wyth wythnos.

Os nad ydych chi'n fodlon â'r ymateb y byddwch chi'n ei dderbyn, fe allech chi fynd â'ch cwyn i'r Gwasanaeth Ombwdsmon Ariannol i weld a allant eich helpu chi.

Rhaid i'ch banc neu gymdeithas adeilad roi manylion i chi am y gwasanaeth Ombwdsmon am ddim pan fyddant yn eich ateb chi. (Gweler *Cysylltiadau defnyddiol* ar dudalen 11)

- ➔ Dysgwch fwy yn: moneyadvice.service.org.uk/problem-ariannol-a-gwneud-cwyn

Mae unrhyw arian a gedwir mewn cyfrif banc sylfaenol heb ffi wedi'i ddiogelu o dan y cynllun gwarant adnau FSCS, sy'n cynnig sicrwydd o hyd at £85,000 y pen. Mae hyn yn golygu os bydd eich banc neu gymdeithas adeiladu yn mynd i'r wal bydd gennych sicrwydd hyd at y swm hwn.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan FSCS.

Egluro'r jargon

Balans

Cyfanswm yr arian yn eich cyfrif.

Clustogfa

Swm bach o gredyd y gallai banc neu gymdeithas adeiladu ei roi i chi, fel y gallwch godi arian o beiriant arian parod hyd yn oed os nad oes digon o arian gennych yn eich cyfrif.

Arian yn ôl

Gwasanaeth sy'n eich galluogi i gael canran o'ch gwariant yn ôl mewn archfarchnadoedd neu siopau eraill, drwy ddefnyddio eich cerdyn debyd.

Chip a PIN

Yr enw ar ddefnyddio Rhif Adnabod Personol (PIN) i awdurdodi taliad o'ch cyfrif.

Gwiriad credyd

Chwiliad o'ch cofnod benthycu, a elwir hefyd yn sgôr credyd.. Mae banc, cymdeithas adeiladu neu sefydliad arall yn gwirio eich credyd cyn iddynt benderfynu a ydynt am gymeradwyo eich cais i agor cyfrif banc.

Cerdyn debyd

Cerdyn a gyhoeddwyd gan fanc neu gymdeithas adeiladu yr ydych yn ei ddefnyddio i godi arian neu i dalu am bethau yr ydych yn eu prynu mewn siopau neu ar-lein. Fel arfer, tynnwyd yr arian o'ch cyfrif yn syth.

Debyd Uniongyrchol

Ffordd o dalu biliau o'ch cyfrif. Rydych chi'n llofnodi ffurflen sy'n caniatâi'r cwmni yr ydych yn ei dalu i gymryd yr arian yn uniongyrchol o'ch cyfrif ar ddyddiadau penodol. Rhaid i'r cwmni roi gwybod i chi ymlaen llaw cyn newid y swm y mae'n ei gymryd neu ddyddiadau'r taliadau.

Llog

Tâl am fenthycg arian, neu wobr am gynilo arian. Fel arfer, mae'n cael ei ddangos fel canran o'r swm yr ydych wedi ei fenthycg neu ei gynilo.

Gorddrafft

Cyfleuster sy'n caniatáu ichi wario mwy o arian o'ch cyfrif nag sydd gennych ynddo. Fel arfer, bydd y banc neu'r gymdeithas adeiladu yn codi llog arnoch os bydd hyn yn digwydd, ac weithiau ffioedd eraill hefyd. Ni chewch orddrafft gyda chyfrif banc sylfaenol heb ffi.

Archeb sefydlog

Ffordd o dalu biliau o'ch cyfrif. Rydych chi'n llofnodi ffurflen a anfonir atoch gan y cwmni yr ydych yn ei dalu. Mae hyn yn nodi'r swm sydd i'w dalu a'r dyddiadau talu. Wedyn, byddwch yn rhoi'r ffurflen hon i'ch banc neu i'ch cymdeithas adeiladu, sy'n talu'r symiau o'ch cyfrif i'r cwmni'n awtomatig ar y dyddiadau y cytunwyd arnynt.

Rhaid i chi ddweud wrth eich banc neu eich cymdeithas adeiladu os bydd angen newid y swm neu'r dyddiadau talu.

Cyfriflen

Rhestr fanwl o'r holl daliadau i mewn ac allan o'ch cyfrif dros gyfnod o amser, er enghraifft un mis. Gofynnwch i'ch banc neu i'ch cymdeithas adeiladu pa mor aml y mae'n darparu cyfriflenni.

Methdalwr nas rhyddhawyd

Person sy'n methu talu ei ddyledion ac sydd yn parhau i fod ar y gofrestr methdaliad.

Cysylltiadau defnyddiol

Y Gwasanaeth Cyngori Ariannol

Mae'r Gwasanaeth Cyngori Ariannol yn wasanaeth annibynnol ac fe'i sefydlwyd gan y llywodraeth i helpu pobl i wneudy gorau o'u harian trwy roi cyngor ariannol diduedd a di-dâl i bawb ledled y DU – ar-lein a dros y ffôn.

Rydym yn rhoi cyngor, awgrymiadau ac offer ar ystod eang o bynciau gan gynnwys rheoli arian o ddydd i ddydd, cynilion, cynllunio eich ymddeoliad a'ch dyfodol, yn ogystal â rhoi cymorth a chyngor ar gyfer digwyddiadau sy'n newid bywyd megis cychwyn teulu neu golli swydd.

I gael rhagor o gyngor a defnyddio ein hoffer a'n cynllunwyr, ewch i
moneyadviceservice.org.uk/cy

Neu ffoniwch ein Llinell Cyngor Ariannol ar 0800 138 0555*

Typetalk
1800 1 0800 915 4622


Gwasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol

Exchange Tower,
Harbour Exchange Square,
Llundain E14 9SR

0800 023 4567 neu 0300 123 9123
financial-ombudsman.org.uk

Llawlyfr IDToynbee Hall – Sut i bofi eich hunaniaeth

Ffoniwch Toynbee Hall ar
020 7247 6943
rhwng 9yb a 5yp, o dydd Llun i ddydd Gwener
i gael rhagor o wybodaeth ar y gwahanol
ddogfennau y gallwch eu defnyddio.



This image shows a single sheet of white paper with horizontal green ruling lines. The lines are evenly spaced and run across the width of the page. There are no margins, text, or other markings on the paper.



**Gwasanaeth
Cyngori Ariannol**

Cyfrifon banc sylfaenol heb ffi
yw un o'r canllawiau sydd ar gael
gan y Gwasanaeth Cyngori Ariannol.
I gael golwg ar ystod lawn ein canllawiau
ac i ofyn am gopïau, ewch i

 **moneyadvice.service.org.uk/
canllawiau-printiedig-am-ddim**

Llinell Cyngor Ariannol **0800 138 0555***
Typetalk **1800 1 0800 915 4622**

Os hoffech y canllaw hwn
mewn fformat Braille, print bras
neu ar ffurf sain cysylltwch â ni
ar y rhifau uchod.

*Galwadau am ddim. Mae'n bosibl y byddwn yn recordio
neu'n monitro galwadau, er mwyn ein helpu i gynnal a
gwella ein gwasanaeth.

Gwybodaeth yn gywir ar adeg argraffu (Ebrill 2018).
Adolygir y canllawiau hyn unwaith y flwyddyn.

Ebrill 2018

© Gwasanaeth Cyngori Ariannol Ebrill 2018
Cyfeirnod: FFBBA_Apr2018_Edition1_Welsh